

WALES

Llwybr Coedwig a Chae Ystad Colby (Llwybr Pinc)

This scenic circular walk winds through estate woodland and farmland. Descending into the valley, then climbs steeply to Little Craig-Y-Borian farmstead. Enjoy stunning coastal views from the level farmland, vibrant with wildflowers in spring and early summer, before returning through the peaceful woodland of Craig y Borion.

i Canfod bywyd gwyllt

Mae'r gwanwyn yn dod â'r cyfle i weld Delor y Cnau neu Gnocell Fraith Fwyaf, gyda Gwybed Mai yn dawnsio dros ddŵr bywiog. Gellir gweld gloŷnnod byw cynnar fel y glöyn Brwmstan a'r Iâr Fach Lygadog ar ddiwmodau heulog, a bydd y glöyn Gwyn Blaen Oren yn dechrau dod i'r amlwg pan fydd blodau'r gwcw yn agor. Mae llwybrau coetir ac isdyfiant yn llawn clychau'r gog. Yn yr haf, gwrandewch am ganeuon melodig y Penlôynnod a galwad nodedig y Piod bach. Efallai y byddwch chi'n gweld brogaod a madfallod dŵr mewn ardaloedd coetir llaith. A bydd blancedi o flodau gwyllt yn ymledu ar draws y caeau. Mae ystumod yn hela pryfed ar draws yr awyr gyda'r cyfnos, gwyliwch nhw'n dilyn llinellau coed a gwrychoedd. Yn yr hydref, chwiliwch am ffyngau, ar y coed a'r canghennau sydd wedi cwmpo. Mae gwiwerod a mamaliaid bach yn casglu bwyd ar gyfer y gaeaf. Yn y gaeaf, mae'r coetiroedd yn dod yn fyw gyda heidiau o Ditwod Mawr, Titwod Tomos Las, a Thitwod Cynffon Hir yn bwydo, tra bod Adar Du, Robin Goch, a Drywod yn llenwi'r awyr â'u galwadau. Mae gwrychoedd fferm yn darparu ffynhonnell fwyd yn y gaeaf a lloches i'r Cesig y Ddrylicin a'r Esgyll Cochion.



Gwybodaeth

Cyfeiriad: Gardd Goetir Colby, ger Llanrath, Sir Benfro, SA67 8PP

Gweithgaredd: Cerdded

Heriol: Argymhellir esgidiau cerdded neu esgidiau cadarn ar gyfer y daith gerdded hon. Mae'r llwybr yn cynnwys grisiau a thirwedd anwastad, gydag un disgyniad serth ac un esgyniad serth. Gall llwybrau coetir fod yn fwdlyd. 1 croesiad nant dros drawstiau pren heb ganllaw. Mae'r daith gerdded yn cynnwys 7 giât. 90m o esgyniad/90m o ddisgyniad. Pwynt Uchaf 130m o uchder. Mae glannau nentydd yn berygl i blant a dylid eu goruchwyllo.

Addas i gŵn: Croeso i gŵn dan reolaeth agos ar Ystâd Colby. Croeso i gŵn ar dennyn yng Ngardd Goedwig Colby. Cŵn ar dennyn yn unig drwy dir fferm (gweler yr arwyddion ar y gatiâu wrth fynd i mewn i dir fferm).

Llwybr llawn: Milltiroedd: 2.2 miles (3.5km) (km: NaN)

Cyfanswm y rhannau: 6

Man cychwyn: Maes parcio uchaf Ystad Colby, cyf. grid: SN 15990 08175

1. Gan wynebu'r hysbysfwrdd ym mhen uchaf y maes parcio, ewch i'r chwith ar hyd y llwybr coetir. (Anwybyddwch y llwybr ceffylau ymbellach ymlaen i'r chwith).
2. Cymerwch y llwybr troed nesaf i'r chwith wrth y marciwr pinc, ewch i lawr y grisiau a dilynwch y disgyniad serth i'r nant. Croeswch y nant ac ewch i fyny'r allt gan fynd yn syth ymlaen ar draws dau lwybr troed. Dringwch i fyny'r grisiau a thrwy'r giât gan barhau'n syth ymlaen heibio'r marciwr pinc a thrwy gae wedi'i orchuddio â rhedyn. Parhewch i fyny'r esgyniad serth gan ddilyn y llwybr drwy'r cae at y giât.
3. Ewch drwy'r giât, trowch i'r dde, gyda fferm Craig y Borion Fach i'r chwith.
4. Ewch ymlaen i'r cyfeirbwynt pinc nesaf wrth gyffordd fforchog gyda llwybr â giât i ffwrdd i'ch chwith. Ewch i'r chwith yma drwy'r giât lai. Mae'r llwybr yn arwain at giât cae (1). Mae hon yn ardal lle caniateir cŵn ar dennyn. Arhoswch wrth ochr y gwrych ar eich ochr dde nes i chi gyrraedd cornel bellaf y cae. Ewch i'r dde drwy giât (2) ac yna'n syth i'r chwith, gan ddilyn ffin y gwrych i gornel bellaf y cae. Ewch i'r chwith drwy'r giât (3). Daliwch ati i symud yn syth

Hyd:

Tirwedd

Mae'r dirwedd yn amrywio. Er bod rhai llwybrau ar dir fferm gwastad, mae gan lawer o ardaloedd yn y coetir dir anwastad, gallant fod yn fwdlyd, ac maent yn cynnwys grisiau cerrig rhydd a gwreiddiau coed agored. Disgyniad creigiog, serth a byr i'r nant ac esgynfa serth, heriol â grisiau rhannol i fyny at Craig y Borion Fach. Mae croesfan y nant wedi'i gwneud o drawstiau pren heb ganllaw a gall fod yn llithrig.

Manylion uchder: Cyfanswm esgyniad/d disgyniad: 90m

Pwynt uchaf: 130m

ymlaen gyda'r gwrych ar eich ochr dde nes i chi fynd trwy 2 giât yn olynol gyda chyfeirbwyntiau pinc/oren yn arwain at lwybr fferm.

- Cymerwch y llwybr i'ch chwith ar unwaith, gan barhau ar hyd a thrwy'r coetir mwy trwchus. Wrth i'r llwybr ddisgyn i drac mynediad caled, trowch ychydig i'r dde yma a pharhewch â'r prif lwybr i lawr at y ffordd darmac.
- Trowch i'r chwith wrth y ffordd, gan basio Rose Cottage ar eich chwith (bwthyn gwyliau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol) a Thŷ Colby ar eich dde. Ychydig ar ôl Tŷ Colby, fe welwch fynedfa ar eich dde sy'n arwain at yr Ystafell De, y toiledau, yr Oriel a'r Siop Lyfrau. Rydych chi nawr yng Ngerddi Coetir Colby. I ddychwelyd i'r maes parcio uchaf, cymerwch y llwybr i'r chwith gyferbyn â mynedfa'r maes parcio isaf.

Man gorffen: Maes parcio Ystad Colby, cyf. grid: SN 15990 08175